

Bwletin 1 – Tachwedd 2018

Mae Cofrestr Fabwysiadu Cymru yn gwella a bydd yn cael ei hailenwi'n Gofrestr Fabwysiadu i Gymru.

Ond nid dim ond newid enw yw hyn; bydd y Gofrestr newydd yn haws ei defnyddio ac yn fwy effeithlon yn ogystal ag yn rhoi mynediad wedi'i reoli i fabwysiadwyr cymeradwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Gofrestr Fabwysiadu yng Nghymru yn llawn; ers 2015, mae'r Gofrestr a'r swyddogaethau cysylltiedig wedi'u darparu drwy Wasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru.

Mae partner newydd, **Link Maker** wedi ennill y contract i ddarparu gwasanaeth cysylltu modern ar-lein. Bydd hyn yn dechrau gweithredu yng ngwanwyn 2019.

Diben y Gofrestr yw sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl wrth ddod o hyd i deuluoedd sy'n mabwysiadu ar gyfer plant sydd â chynllun mabwysiadu sy'n aros. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn gam pellach yn strategaeth Llywodraeth Cymru i 'wella canlyniadau i blant' ledled Cymru ac yn helpu i gyflawni blaenoriaeth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i baru a lleoli plant yn effeithiol.

Beth sy'n newydd?

- Bydd y Gofrestr Fabwysiadu newydd i Gymru a ddarperir gan 'Link Maker' yn gwbl ddwyieithog.
- I blant, bydd yn rhoi mynediad i'r ystod ehangaf o fabwysiadwyr cymeradwy.
- I fabwysiadwyr (ar ôl iddynt drafod â'u hasiantaeth a chael eu dilysu), byddant yn gallu defnyddio'r gofrestr i weld y plant sydd ar gael a dechrau trafod â staff yr asiantaeth fabwysiadu. Bydd y system hefyd yn rhoi gwybodaeth i fabwysiadwyr am y plant y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt neu y maent wedi'u cysylltu â nhw.
- I weithwyr proffesiynol, bydd yn hwyluso'r gwaith o gysylltu a pharu plant â mabwysiadwyr o fewn asiantaethau mabwysiadu'r trydydd sector a Llywodraeth Leol sy'n ffurfio'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru a thu hwnt.
- Bydd y trefniadau presennol gyda'r Cofrestrau ar gyfer gwledydd eraill y DU yn parhau.
- Bydd yn caniatáu datblygu system 'cadw mewn cysylltiad' fel rhan o drefniadau cymorth mabwysiadu gwell.


Bwletin 1 – Tachwedd 2018

Beth nesaf?

- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda'r holl Wasanaethau Mabwysiadu Rhanbarthol ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yng Nghymru i sicrhau trosglwyddiad llyfn o'r Gofrestr bresennol i'r Gofrestr Fabwysiadu newydd i Gymru.
- Ni fydd symud i'r gofrestr newydd yn effeithio ar y gwaith o gysylltu a pharu rhwng mabwysiadwyr â phlant sydd ar y gofrestr bresennol.
- Bydd staff y Gofrestr yn parhau i gefnogi'r broses o weithredu'r asiantaeth drwy ymweliadau, hyfforddiant a chynngor ar gyfer asiantaethau.
- Mae canllawiau ar gyfer defnyddio'r gofrestr newydd yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu profi a'u mireinio.
- Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi gyda bwletinau misol fel hyn a fydd hefyd ar gael ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol – www.adoptcymru.com

Mae **Link Maker** hefyd yn darparu'r Gofrestr Fabwysiadu yn yr Alban; os oeddech am gael golwg arno defnyddiwch y ddolen hon. Mewnosodwch y ddolen yma – www.linkmaker.co.uk

Mae'r project hwn yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, rhanbarthau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a'r tîm canolog yn ogystal ag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol Cymru.



link maker Home Features About Security Data FAQ Contact Release notes

Twitter Facebook Register Login

Joining-up children's social care

Link Maker joins-up children's social care across the UK to increase placement choice for children, and to improve use of data and collaboration between local authorities and providers.